# Tymor y Gwanwyn 2018 — Blwyddyn 1 a 2 Mrs Hiley

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR



## Thema'r hanner tymor yw: **Y Byd Mawr Crwn!**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'I ble'r awn ni heddiw?' a mwynhau teithio ar ein carped hud .
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Creadigol**

- Ymarfer sgiliau arlunio gan ddefnyddio'r cyfrifiadur.
- Datblygu sgiliau cymysgu paent a pheintio tirluniau.
- Dysgu caneuon newydd a gwrando ar gerddoriaeth o Gymru ac o wledydd eraill.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu i Flwyddyn 2 ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk**

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Defnyddio sgiliau ymchwilio daearyddol er mwyn cymharu Cymru ac ardal Abertawe gyda gwlad arall— Rydyn ni wedi cynnal pleidlais er mwyn dewis gwlad i'w hastudio.
- Cymharu ffactorau megis y tywydd, y boblogaeth, nodweddion daearyddol, a ffordd o fyw yn y ddwy wlad.

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a dysgu darllen yr amser ar gloc analog a digidol.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.
- Dysgu sut i drefnu a defnyddio data gan ddefnyddio'r cyfrifiadur hefyd.

**Addysg Grefyddol:**

Rhyfeddu at harddwch a gwerthfaworgi y byd

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau.

Dysgu am bwysigrwydd e-ddiogelwch.

**Datblygiad Corfforol**

- **Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd**
- **Ymarfer a dysgu sgiliau dawnsio creadigol a dawnsio gwerin.**
- **Ymarfer sgiliau llaw-driniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.**

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.

Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl eraill mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.